



National Theatre Wales

Swydd-ddisgrifiad: Cynhyrchydd

Dwy flynedd, amser llawn, cyfnod penodol. £30k i £35k, gan ddibynnu ar brofiad

Prif ddiben y swydd:

Bydd y Cynhyrchydd yn cefnogi ystod o brosiectau a chynyrchiadau National Theatre Wales (NTW). Bydd yn gweithio ar draws nifer o ddigwyddiadau, gweithgareddau a sioeau, yn gweithio'n agos gydag adrannau Cynhyrchu, Cyfathrebu, Cydweithio, Datblygiad Creadigol, Cyllid a Chodi Arian NTW. Yn ogystal bydd yn datblygu perthnasoedd a gwybodaeth am artistiaid, cwmnïau, lleoliadau, perfformwyr a thimau cynhyrchu ac yn gweithio tuag at gyflawni dyheadau artistig a nodau datblygu cynulleidfa NTW. Ar rai prosiectau, bydd y Cynhyrchydd yn arwain y cyflawni, ac ar eraill byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynhyrchydd Gweithredol. Bydd yn darparu cymorth cynhyrchu o ddydd i ddydd, gyda ffocws penodol ar fynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer y dyfodol yn cynnwys teithio a dosbarthu digidol.

Yn adrodd i'r:

Cynhyrchydd Gweithredol

Cyfrifoldebau Rheoli Llinell:

Staff prosiectau a thimau llawrydd fel y bo'n briodol

Gweithio i NTW

Mae pob aelod o staff yn National Theatre Wales (NTW) â rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni nodau'r Cwmni. Rydym i gyd yn eiriolwyr ar gyfer gwaith ac ethos y Cwmni ac anogir Aelodau'r Cwmni i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid newydd ac aelodau cymuned newydd i NTW a helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer y dyfodol. Mae mynychu cyfarfodydd y Cwmni a chyfarfodydd Syniadau, ac ymgysylltu gweithredol gyda NTW TEAM - ein rhaglen sy'n cynnwys

amrywiaeth eang o gymunedau ym mhob peth a wnawn - yn rhan annatod o waith pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob swydd-ddisgrifiad, mae'r gweithgareddau Cwmni gyfan hyn yn rhan allweddol o gyfraniad a chyflawniad pob aelod o staff.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cyflawni Prosiectau

- Cynhyrchu cynrychiadau, prosiectau a digwyddiadau fel y cytunwyd gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol
- Gweithio gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol i geisio partneriaethau cyd-gynhyrchu, trosglwyddiadau masnachol, a chyfleoedd teithio, digidol neu ddarlledu fel y bo'n briodol i bo cynhyrchiad.
- Meithrin perthnasoedd a gweithio ar y cyd ag artistiaid/timau creadigol i ddatblygu comisiynau a phrosiectau, gan weithio ochr yn ochr â Datblygiad Creadigol o dro i dro
- Darparu diweddariadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cynhyrchydd Gweithredol ar gynnydd y prosiectau y mae'r Cynhyrchydd yn gyfrifol amdanynt
- Gweithio ochr yn ochr â'r Adran Gynhyrchu i sicrhau lleoliadau (yn cynnwys lleoliadau safle-benodol) a gweithredu fel pwynt cyswllt o ddydd i ddydd gyda lleoliadau, partneriaid cyd-gynhyrchu a cyflwynwyr
- Rheoli'r broses o gaffael trwyddedau, fisas ac yswiriant angenrheidiol fel sy'n ofynnol i sicrhau bod y Cwmni yn cyflawni ei waith o fewn fframwaith cyfreithiol priodol pob lleoliad neu safle
- Gweithio gyda'r Uwch Weinyddydd Cynhyrchu i gyd-gasglu a threfnu teithio a llety a threfniadau logistaidd eraill sydd eu hangen i gefnogi timau creadigol, ac yn achlysurol cwmnïau perfformio
- Darparu cyfathrebu rheolaidd i dimau creadigol drwy gydol y cynhyrchiad, mewn cydweithrediad â'r Uwch Weinyddydd Cynhyrchu
- Darparu cyfathrebu rheolaidd i aelodau cwmnïau perfformio drwy gydol y cynhyrchiad, mewn cydweithrediad â'r Swyddog Cyswllt Castio
- Cefnogi cynrychiadau ac aelodau'r cwmni yn ystod perfformiadau, gan gynnwys teithio gyda chynrychiadau yng Nghymru, y DU a thramor yn ôl y gofyn
- Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Cynhyrchu, Rheolwyr Cynhyrchu a'r Uwch Weinyddydd Cynhyrchu, i ddatblygu amserlenni a strwythurau staffio, sicrhau cyfathrebu effeithiol am gynhyrchu bob amser a bod y cynhyrchiad yn cael ei wireddu ar safon uchel ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- Cysylltu gyda'r adrannau Cyfathrebu, Cydweithredu, Datblygiad

Creadigol a Chodi Arian am ofynion a chyfleoedd y cynhyrchiad a sicrhau bod cyfathrebu a gwneud penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â'r cynhyrchiad yn digwydd bob amser

- Nodi, datblygu a rheoli chyfleoedd ar gyfer ymelwa ar gynyrchiadau NTW trwy deithio, trosglwyddiadau a/neu ddsbarthu digidol
- Meithrin chyfleoedd i wella proffil y cwmni yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Cyfrannu at werthuso cynyrchiadau a phrosiectau, gan sicrhau bod dysgu yn cael ei gipio a'i gymhwyso i gynllunio a darparu gweithgareddau yn y dyfodol.

Cytundebol

- Cyd-drafod, cytuno a chyhoeddi contractau ar gyfer timau creadigol o fewn gofynion y diwydiant ac yn unol ag arfer da bob amser
- Gweithio'n agos gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol i ddrafftio contractau comisiynau a chyd-gynyrchiadau
- Gweithio gyda'r adran Datblygiad Creadigol i logio ac olrhain Comisiynau a chytundebau gweithdai
- Gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol, cynnal y berthynas o ddydd i ddydd ag Equity, WGGB, SDUK a sefydliadau eraill yn y diwydiant yn ôl yr angen.

Ariannol

- Rheoli cyllidebau a monitro ac adrodd ar wariant ac incwm yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd
- Gweithio gyda Rheolwyr Cynhyrchu i gysoni cyllidebau cynhyrchu ar ôl cwblhau prosiectau
- Gweithio o fewn gweithdrefnau cyllid a chyfrifyddu cytunedig y Cwmni. Bydd hyn yn cynnwys cymeradwyo a chodio ffurflenni archebu, anfonebau a threuliau yn gyflym ac yn gywir
- Gwneud ceisiadau am arian lle bo angen ac adrodd ar y defnydd o arian
- Cyd-drafod a rheoli gofynion treth rhyngwladol yn ôl y gofyn ar gyfer teithiau rhyngwladol
- Cydlynu datganiadau breindaliadau fel y bo'n briodol.

Cyfathrebu

- Cysylltu gyda'r timau marchnata a'r wasg ynghylch cynlluniau

ymgyrchoedd, a chreu copi, delweddau a datganiadau i'r wasg; sicrhau bod gwybodaeth am docynnau, yr hyn i'w ddisgwyl, a gwybodaeth i'r gynulleidfa yn gyfredol a bod gan bartneriaid swyddfeydd tocynnau wybodaeth.

- Gweithio i gefnogi nodau datblygu cynulleidfa y cwmni ar bob cynhyrchiad.

Trefniadaeth Gyffredinol

- Cyfrannu at gynllunio cynyrchiadau'r Cwmni bob blwyddyn/tymor, gan sicrhau bod prosiectau a chynyrchiadau wedi'u hamserlennu a'u cyllidebu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ac artistiaid a yn gweithio o fewn amcanion strategol y Cwmni.
- Gweithio fel aelod allweddol o'r cwmni yn cefnogi cydweithwyr a'r sector (yn cynnwys cynhyrchwyr sy'n dod i'r amlwg), rhannu gwybodaeth ac arbenigedd i sicrhau bod yr holl brosiectau yn cael eu darparu gyda'r lefelau uchaf o ofal a diwydrwydd
- Bod yn wyneb cyhoeddus hawdd mynd ato ar gyfer NTW, yn unol â gwerthoedd y cwmni
- Cynrychioli NTW mewn digwyddiadau, perfformiadau a rhwydweithiau'r diwydiant yn ôl y gofyn
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill y gellid eu ceisio'n rhesymol gan y Cynhyrchydd ar gais y Cynhyrchydd Gweithredol

TEAM

Ymwneud â gweithgaredd tîm

- Cynnig cymorth, cyngor a hyfforddiant i aelodau TEAM fel y bo'n briodol
- Goruchwylio lleoliadau/cyfleoedd cysgodi gwaith i aelodau TEAM
- Edrych ar ffyrdd o alluogi aelodau TEAM i gymryd rhan weithredol mewn gweinyddu cynyrchiadau

Nid yw'r swydd-ddisgrifiad hwn yn gynhwysfawr ac mae'n bosibl y caiff y cyfrifoldebau eu newid neu yr ychwanegir atynt.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad o ddatblygu, darparu a theithio cynyrchiadau
- Profiad o greu a rheoli cyllidebau prosiect cymhleth
- Sgiliau cyd-drafod cryf a phrofiad o gyd-drafod ac ysgrifennu contractau
- Profiad o greu perthnasoedd ag amrywiaeth eang o bartneriaid a phobl greadigol
- Y gallu i reoli blaenoriaethau lluosog, cwrdd â therfynau amser a rheoli llwyth gwaith prysur
- Gwybodaeth a dealltwriaeth eang o berfformio cyfoes a theatr y DU
- Profiad o systemau TG sy'n briodol i'r sefydliad a'r gallu i ymgysylltu â hwy
- Parodrwydd i gefnogi ymrwymiad NTW i gyfle cyfartal a chynaliadwyedd

Dymunol

- Gwybodaeth am fyd y celfyddydau yng Nghymru
- Dealltwriaeth o ddefnyddio technoleg ddigidol o fewn arfer creadigol ac ar gyfer ehangu dosbarthu
- Profiad o ddatblygu strategaethau i dargedu cynulleidfaoedd newydd a phresennol
- Profiad o wneud ac ennill ceisiadau am arian i gefnogi cynyrchiadau
- Gwybodaeth am sgiliau Cymraeg

TELERAU AC AMODAU

Cyflog: £30k i £35k, gan ddibynnu ar brofiad

Oriau: 35 awr yr wythnos (yn ogystal ag egwyl orfodol am un awr, gan gymryd yr wythnos waith i 40 awr). Bydd angen gweithio gyda'r nôs ac ar benwythnosau, ni thelir unrhyw oramser.

Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn, pro rata (ac eithrio Gwyliau Banc statudol)

Cyfnod: Dwy flynedd, amser llawn, cyfnod penodol. Er y cynigir y rôl hon fel swydd amser llawn, byddem yn ystyried trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd iawn.

Cyfnod rhybudd: Yn dilyn cwblhau'r cyfnod prawf tri mis yn llwyddiannus, y cyfnod o rybudd yw tri mis ar y naill ochr.

Pensiwn: Ar ôl cwblhau cyfnod prawf boddhaol mae'r Cwmni yn cynnig cynllun pensiwn rhanddeiliaid gyda Royal London, lle y didynnir cyfraniadau o'ch cyflog. Byddwch yn ymuno â'r cynllun hwn yn awtomatig, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd. (Mae gennych yr opsiwn wedyn o gyflwyno hysbysiad optio allan o fewn chwe wythnos i ymuno, os nad ydych am fod yn aelod o'r cynllun. Os byddwch yn arfer yr opsiwn hwn bydd eich cyfraniadau yn cael eu dychwelyd atoch). Ceir cyfraniad o 5% gan y Cyflogwr ar hyn o bryd i'r cynllun hwn. Ar hyn o bryd, mae cyfraniad y cyflogai yn ôl eich disgresiwn eich hun. Fodd bynnag, bydd cyfraniad cyflogai o isafswm o 3% yn ofynnol o fis Ebrill 2019 ymlaen, er mwyn cyd-fynd â gofynion cofrestru awtomatig pensiwn y Llywodraeth, fel y saif pethau ar hyn o bryd.

Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o'r gymuned ac yn arbennig y rhai sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn NTW, gan gynnwys pobl o liw a phobl anabl.